Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) – Ydych chi'n gymwys?
Peidiwch â bod ar eich colled! Ebrill 2023

Ni waeth pa un a yw eich plentyn yn cael Prydau Ysgol Am Ddim Cyffredinol o gynllun newydd Llywodraeth Cymru (disgyblion yn y Derbyn/Blwyddyn 1/Blwyddyn 2), os ydych yn byw ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr (CBSP) a'ch bod chithau fel rhiant yn cael rhai budd-daliadau penodol, gallwch gyflwyno cais i CBSP i hawlio prydau ysgol am ddim ar gyfer eich plentyn o oedran ysgol. Mae hyn yn golygu y byddwch (ar adeg ysgrifennu) yn cael **cymorth tuag at brydau bwyd dros y gwyliau ysgol** ac y gallech fod yn gymwys i gael **grant ar gyfer gwisg ysgol**, yn ogystal â chael prydau ysgol am ddim yn ystod y tymor ysgol.

Caiff y diffiniad o 'riant' ei nodi yn adran 576 Deddf Addysg 1996. Mae'n cynnwys unrhyw un sy'n gofalu am blentyn. Mae rhieni maeth wedi'u cynnwys hefyd. Nid oes rhaid i'r plentyn fod yn byw gyda'r rhiant sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim.

Mae'r budd-daliadau hyn yn cynnwys cymhorthdal incwm, lwfans ceisio gwaith yn seiliedig ar incwm, cymorth dan Ran VI Deddf Lloches a Mewnfudo 1999, lwfans cyflogaeth a chymorth yn seiliedig ar incwm, credyd treth plant (ond nid credyd treth gwaith) os nad yw eich incwm blynyddol fel y'i haseswyd ar gyfer credydau treth yn uwch nag £16,190, elfen gwarant credyd pensiwn, credyd treth gwaith am gyfnod ychwanegol (y taliad y gall rhywun ei gael am bedair wythnos bellach pan nad yw'n gymwys i gael credyd treth gwaith mwyach), credyd cynhwysol (nid mewn gwaith) neu gredyd cynhwysol (mewn gwaith) lle mae eich dyfarniad yn seiliedig ar enillion blynyddol net o lai na £7,400 o'ch cyflogaeth neu hunangyflogaeth. Mae'r trothwy o £7,400 yn ymwneud ag incwm a enillir net a ddiffinnir fel incwm yr aelwyd ar ôl trethi a didyniadau. Byddai incwm net o enillion cyflogai ac enillion hunangyflogaeth datganedig yn cael ei gymryd i ystyriaeth. Nid yw'n cynnwys incwm o Gredyd Cynhwysol na budd-daliadau eraill.

Os oedd unrhyw ddisgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar yr adeg y cyflwynwyd trothwy ar gyfer incwm a enillir (1 Ebrill 2019) bydd ei gymhwystra wedi'i ddiogelu. Bydd hyn yn berthnasol i'r holl ymgeiswyr tan ddiwedd y broses o gyflwyno credyd cynhwysol, sef 31 Rhagfyr 2023 ar hyn o bryd. Mae hyn yn berthnasol hyd yn oed os yw eu hamgylchiadau'n newid.

Y ffurflen gywir yw '**Cais am brydau ysgol am ddim/gwisg ysgol unigryw'** yn yr ardal '**Budd-dal Tai a Gostyngiadau'r Dreth Gyngor'** yn yr adran Fy Nghyfrif ar wefan CBSP [www.bridgend.gov.uk](http://www.bridgend.gov.uk).

Os ydych yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, byddwn yn cael ein hysbysu fel y gallwn ddiweddaru ein cofnodion. Dyfernir prydau ysgol am ddim i bob plentyn ar wahân ac nid i'r aelwyd. Bydd angen i chi gwblhau ffurflen gais newydd os oes gennych blentyn arall sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf.

Cysylltwch â ni yn uniongyrchol os byddech yn gwerthfawrogi cael help i gwblhau'r ffurflen(ni), neu i gael rhagor o wybodaeth anfonwch neges e-bost atom yn admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru neu ffoniwch ni ar 01656 815580. Cysylltwch â CBSP yn uniongyrchol ar gyfer ymholiadau ynghylch cymhwystra i gael PYADd.

Ysgol Gymraeg Bro Ogwr

Free School Meals (FSM) – Are you eligible? Don't miss out! April 2023

Regardless of whether your child receives Universal Free School Meals from the new Welsh Government scheme (pupils in Reception/Year 1/Year 2), if you live in Bridgend County Borough (BCBC) and as a parent you receive certain benefits, you can apply to BCBC to claim free school meals for your school-aged child. This means that you will (at the time of writing) receive **support for meals over the school holidays** and may be eligible for a **grant for school uniform**, as well as receiving free school meals during school term time.

The definition of 'parent' is set out in section 576 of the Education Act 1996. It includes any person who has care of the child. Foster parents are also included. The child does not have to be living with the parent who qualifies for free school meals.

These benefits include income support, income based jobseeker's allowance, support under Part VI of the Immigration and Asylum Act 1999, income-related employment and support allowance, child tax credit (but not working tax credit) if your annual income as assessed by tax credits does not exceed £16,190, guarantee element of pension credit, working tax credit 'run-on' (the payment someone may receive for a further four weeks after they stop qualifying for working tax credit), universal credit (not in work) or universal credit (in work) where your award is based on net annual earnings of under £7,400 from your employment or self-employment. The £7,400 threshold relates to net earned income defined as household income after taxes and deductions. Net income from employee earnings and declared self- 5 employment earnings would be taken into account. It does not include income from Universal Credit or other benefits.

Any pupil eligible for free school meals at the point an earned income threshold was introduced (1 April 2019) will have their eligibility protected. This will apply to all applicants until the end of the roll-out of universal credit which is currently scheduled for 31 December 2023. This applies even if their circumstances change.

The correct form is '**Application for free school meals/distinctive school uniform**' in the '**Housing Benefit and Council Tax Reduction**' area of the My Account section on the BCBC website www.bridgend.gov.uk.

If you are eligible for free school meals, we will be notified so that we can update our records. Free school meals are awarded for each child separately and not for the household. You will need to complete a new application form if you have another child starting school for the first time.

Please contact us directly if you would appreciate help completing the form(s), or for further information please email us on admin@ygbroogwr.pen-y-bont.cymru or call us on 01656 815580. Please contact BCBC directly for queries relating to FSM eligibility.